


Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w lyfr diweddaraf, beth sy'n ei ysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenywyr ifanc!

Dod i adnabod

Geraint Lewis



Mae Geraint Lewis yn hanu o Dregaron, Ceredigion. Graddiodd mewn Saesneg a Drama o Brifysgol Cymru, Aberystwyth. Cyhoeddodd dair nofel, sef *X*, *Daw Eto Haul a Haf o Hyd*, i gyd gan Wasg Carreg Gwalch a thair cyfrol o straeon byrion *Y Malwod* (Annwn), *Brodyr a Chwiorydd* (Y Lolfa) a *Cofiwch Olchi Dwylo a negeseuon eraill* (Carreg Gwalch). Ef oedd enillydd cyntaf Gwobr Goffa Tony Bianvhi yn 2019. Daeth ei nofel ddiweddaraf, *Lloerig* (Gwasg Carreg Gwalch) yn ail am y Fedal Ryddiaith yn 2021. Bu Geraint yn ysgrifennu'n helaeth i'r theatr a radio ac mae'n ysgrifennu'n gyson ar gyfer y teledu, yn bennaf i'r gyfres *Pobol y Cwm*. Mae'n byw yn Aberaeron gyda'i wraig Sian.



Crynodeb:

Ar y wyneb mae'r 'stori' am fam yn ei phumdegau, Mari, yn gwneud cacen ar bryn hawn o haf ac yna'n cael paned o de wedi iddi ddyfrio ychydig o'i phlanhigion yn ei gardd. Ond wrth iddi baratoi ei chacen ac yfed ei the a rhoi dŵr ar ei phlanhigion, ry'n ni fel darllenwyr yn cael ein gwahodd tu fewn i'w phen, sy'n fwrllwm o alar a dichter. Wrth ddilyn trywydd ei meddwl down i ddirnad maint ei dioddefaint, gan iddi gollu ei mab un deg chwech oed jest dros fis yn ôl, wedi iddo gymryd ei fywyd.

Beth wnaeth eich ysbrydoli i ysgrifennu *Lloerig*?

Gweld erthygl bapur newydd yn sôn am ystadegau brawychus hunanladdiad ymhlith dynion ifanc oedd yr ysbrydoliaeth gynnar. O'n i'n meddwl ei fod e'n bwnc pwysig i ddelio ag ef yn storiol. Hefyd oedd dyfodiad yr Eisteddfod Genedlaethol i fro fy mebyd, Tregaron, wedi crisialu'r meddwl ynglŷn â cheisio am y Fedal Lenyddiaeth am y tro cyntaf. A'r testun, Clymau, yn apelio.

Beth wnaeth eich ysbrydoli i ddechrau ysgrifennu?

Os chi'n sôn yn gyffredinol yna mae'r awydd i ddweud stori'n mynd 'nôl ymhell gen i, o gyfnod fy ardegau yn sicr. Jest diléit naturiol o wneud rhywbeth chi'n ei hoffi, am wn i. Os chi'n sôn am '*Lloerig*' yn sicr roedd dyddiad cau'r gystadleuaeth yn nesáu ar y gorwel yn ysbrydoli rhywun. Dwi wedi ffeindio yn y gorffennol weithiau mae jest rhaid i chi ysgrifennu'r darn. Roedd hynny'n sicr yn wir am y tro hwn, sef yr awydd cryf i gael y stori i lawr ar ddu a gwyn. Dwi'm yn rhy siŵr o ble mae hynny'n dod yn y bôn, nac yn siŵr os wy'n dymuno gwybod chwaith!

Pa brofiadau o lyfrgelloedd sydd wedi dylanwadu arnoch drwy eich bywyd?

O'n i'n ddigon ffodus i fyw drws nesaf i'r llyfrgell yn Nhregaron a chofio treulio tipyn o fy ardegau yno a'i weld fel rhywle hudol, lle allech chi ddiflannu i fydoedd eraill. Dwi wastad wedi defnyddio llyfrgelloedd ble bynnag wyf wedi byw. Maen nhw'n dal i greu rhyw wefr wrth fynd i mewn trwy'r drws.

... mwy o G&A ar wefan



Gwasg
Carreg
Gwalch

carreg-gwalch.cymru



Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A
ar wefan

llyfrgelloedd.cymru